Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 23/2013

# Darpariaeth Addysg ôl-19 oed i Bobl Ifanc ag Anawsterau Dysgu Cymhleth sydd yn Byw yng Nghymru: lefelau'r angen a'r ddarpariaeth bresennol

## Adroddiad Cryno

# Darpariaeth Addysg ôl-19 oed i Bobl Ifanc ag Anawsterau Dysgu Cymhleth sydd yn Byw yng Nghymru: lefelau'r angen a'r ddarpariaeth bresennol.

Adroddiad Cryno


| | |
|---|---|
| Ruth Townsley | (Ruth Townsley Research) |
| Stephen Beyer | (Welsh Centre for Learning Disabilities, Prifysgol Caerdydd) |
| Carol Robinson | (Carol Robinson Consulting) |
| Val Williams | (Norah Fry Research Centre, Prifysgol Bryste) |



Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru a fynegir yn yr adroddiad hwn.



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Dr Karen Bathgate

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 821628

E-bost: karen.bathgate@wales.gsi.gov.uk



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978 0 7504 8641 5



© Hawlfraint y Goron 2013

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1. Nodir Llywodraeth Cymru mae pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu difrifol (ADD; *severe learning difficulties*) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl; *profound and multiple learning difficulties*) fel y rhai gydag 'anawsterau dysgu cymhleth'. Yn nodweddiadol, ceir pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth eu haddysg uwchradd mewn ysgolion arbennig hyd at 19 oed (Blwyddyn 14). Er ei fod yn grŵp cymharol fach, mae'r grŵp yma yn destun pryder i lunwyr polisi, ymarferwyr, teuluoedd a grwpiau yn y sector gwirfoddol oherwydd bod opsiynau ôl ysgol wedi'u cyfyngu'n sylweddol o gymharu ag opsiynau ôl ysgol i bobl ifanc eraill sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009).

2. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, comisiynwyd ymchwil annibynnol gan Lywodraeth Cymru i nodi lefelau'r angen a'r ddarpariaeth addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sy'n byw yng Nghymru ac i asesu sut i ddiwallu'r angen sydd heb ei gyflawni ar eu cyfer.

3. Casglwyd gwybodaeth manwl gan ddarparwyr addysg ôl-19 oed, ysgolion arbennig, awdurdodau lleol, teuluoedd, a phobl ifanc ag ADD ac ADDLl gan yr ymchwilwyr. Canolbwyntiwyd ar gyrchfannau addysg ôl-19 oed ar gyfer garfan o 138 o bobl ifanc ag ADD ac ADDLl a adawodd Blwyddyn 14 o addysg uwchradd ym mis Gorffennaf 2011. Ymchwiliwyd i'r ddarpariaeth addysg ôl-19 oed i'r bobl ifanc yma, eu mynediad i'r addysg, y cymorth maent yn eu derbyn, a chostau'r ddarpariaeth i'r asiantaethau unigol dan sylw. Casglwyd gwybodaeth o astudiaethau achos o du allan i Gymru yn ymwneud â modelau a phecynnau eraill o ddarpariaeth addysg ôl-19 oed. Casglwyd data rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2012, ac mae'r data yn ymwneud â darpariaeth a oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/2012.

**Darpariaeth bresennol o addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth**

4. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12, roedd yna 20 o golegau Addysg Bellach (AB)[1] yng Nghymru, ac roedd 15 ohonynt yn cynnig darpariaeth addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. O'r 14 o golegau a gymerodd ran yn yr ymchwil, roedd 12 yn cynnig rhaglenni dysgu a allai gael eu mynychu gan bobl ifanc ag ADD, ac roedd 11 o golegau yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag ADDLI. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2012/13, roedd dau goleg yn bwriadu ehangu eu darpariaeth i gynnwys dysgwyr ag ADD ac roedd un yn bwriadu rhedeg rhaglenni addas ar gyfer dysgwyr ag ADDLI. Fel arfer roedd pob coleg AB yn cofrestru chwech i 12 o fyfyrwyr newydd ag ADD ac/ neu ADDLI y flwyddyn. Roedd cyfanswm yr amser cyswllt uniongyrchol yn amrywio'n fawr rhwng rhaglenni, gyda rhai cyrsiau yn cynnig llai nag un diwrnod yr wythnos o amser addysgu, tra bo eraill yn cynnig hyd at bum diwrnod yr wythnos.

5. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 roedd yna pum coleg Arbenigol Annibynnol (AA; *Independent Specialist Colleges*) yng Nghymru, ac roedd pedwar yn cynnig addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. O'r tri choleg AA Cymreig a gymerodd rhan yn yr ymchwil, roedd pob un yn cynnig rhaglenni dysgu i bobl ifanc ag ADD, ond dim ond un oedd yn cynnig darpariaeth i bobl ifanc ag ADDLI. Roedd rhai pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth o Gymru yn cael mynediad i golegau AA yn Lloegr. Roedd blwyddyn academaidd y colegau AA yng Nghymru yn rhedeg am 38 wythnos, serch hynny, ond un coleg oedd yn cynnig lleoliadau preswyl am 52 wythnos y flwyddyn. Roedd y colegau AA yn cynnig rhaglenni dysgu dydd a phreswyl ac roedd y rhain yn rhedeg o bump i saith diwrnod yr wythnos. Roedd pob coleg AA yng Nghymru fel arfer yn cofrestru 12-30 o fyfyrwyr newydd ag ADD ac/ neu ADDLI y flwyddyn.

[1] Ers hynny mae dau goleg wedi uno, fodd bynnag, ar adeg yr ymchwil roedd y ddau goleg yn gweithredu fel dau darparwr ar wahân.

## Cymorth i gael mynediad i addysg ôl-19 oed

6. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12, roedd cymorth dysgu ar gael i fyfyrwyr ag ADD mewn 12 o'r 14 coleg AB ac mewn tri o'r colegau AA Cymreig a gymerodd rhan yn yr ymchwil. I bobl ifanc ag ADDLl roedd cymorth dysgu ar gael mewn 11 coleg AB ac ond mewn un o'r colegau AA Cymreig a gymerodd rhan yn yr ymchwil. Roedd cymorth ar gyfer anghenion personol ar gael i fyfyrwyr ag ADD mewn 11 coleg AB, a tri o'r colegau AA Cymreig, ac ar gyfer myfyrwyr ag ADDLl mewn 10 coleg AB, ac un o'r colegau AA Cymreig. Roedd cefnogaeth ar gyfer anghenion gofal iechyd cymhleth ar gael mewn chwe choleg AB, ond dim ar gael mewn un o'r colegau AA Cymreig a gymerodd rhan yn yr ymchwil. Roedd pobl ifanc yn gallu parhau i gael mynediad i therapïau mewn wyth coleg AB ac mewn pob un o'r colegau AA a gymerodd rhan yn yr ymchwil.

## Heriau i gael mynediad at, a darparu, addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag ADD ac ADDLl

7. Amlygodd yr ymchwil nifer o heriau ymarferol, trefniadol ac ariannol sylweddol sydd wedi cyfyngu (a) mynediad pobl ifanc ag ADD ac ADDLl i addysg ôl-19 oed; a (b) gallu'r colegau i ddarparu darpariaeth addas a phriodol i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc yma.

8. Nid yw pob coleg AB na choleg AA yn gallu derbyn ceisiadau oddi wrth yr holl bobl ifanc sydd ag ADD neu ADDLl. O'r 12 o golegau AB a gyfwelwyd, a oedd wedi derbyn ceisiadau gan y grŵp targed yma ar gyfer 2011/12, roedd tri wedi derbyn yr holl geisiadau a wneir, tra nad oedd naw coleg wedi gallu derbyn pawb a wnaeth ceisio am le. Roedd pob un o'r colegau AA a gyfwelwyd wedi derbyn ceisiadau gan bobl ifanc ag ADD neu ADDLl ac fe wnaeth 52% o'r ceisiadau hyn arwain at le yn y coleg. Fodd bynnag, nid oedd tri o'r 14 coleg AB a dau o'r tri choleg AA a gyfwelwyd yng Nghymru wedi gallu derbyn ceisiadau oddi wrth unrhyw bobl ifanc gydag ADDLl ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 (er roedd un coleg AB yn bwriadau gwneud ar gyfer 2012/13). Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan golegau AB a cholegau AA

am beidio â derbyn rhai ceisiadau oedd bod gan yr ymgeisydd anghenion na allai'r coleg eu diwallu, megis anghenion gofal iechyd cymhleth, problemau ymddygiad, neu anghenion cyfathrebu penodol. Mae'r ffactorau yma yn gysylltiedig yn aml â diffyg staff gyda'r hyfforddiant priodol ar y safle (ee staff nyrsio) a chyfyngiadau'r amgylchedd ffisegol.

9. Nid oedd rhai colegau AB yn gallu cynnig mynediad i gymorth ar gyfer anghenion iechyd cymhleth na chwaith i'r therapïau y mae'r grŵp yma o ddysgwyr eu hangen. Gall hyn olygu nad yw teuluoedd a phobl ifanc yn gallu ystyried eu coleg lleol fel dewis dichonadwy ar gyfer addysg ôl-19 oed.

10. Nid rhaglenni dysgu llawn-amser yw'r mwyafrif o ddarpariaeth mewn colegau AB. Nid yw'r rhaglenni dysgu yma yn cyfateb mewn amser i ddiwrnod llawn amser yn yr ysgol, ac fel arfer maent yn cynnig 16-25 awr o amser cyswllt pob wythnos. Mae llawer o'r cyrsiau sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc ag ADD ac ADDLl yn rhan amser ac yn amrywio o gyn lleied â dwy awr hyd at 12 awr yr wythnos. Gall yr amser byr y mae pobl ifanc mewn gwirionedd yn y coleg gwneud bywyd yn anodd iawn i deuluoedd a gall arwain at deuluoedd yn awgrymu opsiynau eraill (ee coleg AA neu wasanaeth dydd) i'w mab neu ferch yn hytrach na derbyn lle mewn coleg AB lleol.

11. Cadarnhaodd yr ymchwil bod yna ddiffyg dewis o raglennu dysgu cyffredinol ar gyfer pobl ifanc ag ADD. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cyfyngedig iawn i gael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd (ac eithrio fel rhan o raglen ar wahân) a diffyg cyrsiau galwedigaethol neu gyfleoedd i gael cyflogaeth â chymorth neu i barhau gyda lleoliadau profiad gwaith a gychwynnwyd yn yr ysgol arbennig. Amlygwyd atebwyr at ddiffyg opsiynau addysgol preswyl lleol ar gyfer y grŵp yma o ddysgwyr.

12. Ar gyfer pobl ifanc ag ADDLl, amlygodd yr ymchwil fod rhai colegau AB yn ei chael yn anodd cynnig lefel y cwricwlwm unigol a chymorth dysgu sydd eu hangen gan y grŵp yma o fewn y system gyllido bresennol.

Ceir ddiffyg amlwg o amgylcheddau dysgu synhwyraidd o fewn colegau AB a gall hygyrchedd y colegau ac amgylcheddau'r ystafelloedd dosbarth fod yn broblem i bobl sydd yn defnyddio cadeiriau olwyn. Mae yna ddiffyg o fynediad at therapïau parhaus, ac mewn rhai achosion, diffyg lle ar gyfer defnyddio a storio offer arbenigol. Mae angen trefniadau amlasiantaethol a gweinyddol cymhleth i sefydlu'r cyllid a seilwaith ar gyfer diwallu anghenion personol a gofal iechyd cymhleth pobl ifanc sydd ag ADDLl. Mewn rhai colegau, gall cymryd rhan yn y lefel yma o gymhlethdod a risg cael eu hystyried yn 'gam yn rhy bell' gan uwch rheolwyr.

13. Gall cludiant i, ac o'r, coleg fod yn anodd i'w canfod ac i'w cyllido. Mae trefniadau gwahanol yn bodoli rhwng awdurdodau lleol a cholegau. Mae penderfyniadau ynglŷn â chyllid ar gyfer trafnidiaeth yn aml yn cael ei wneud yn hwyr ac mae'n ymddangos fod yna ychydig iawn o eglurdeb neu wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae diffyg tegwch o fewn, a rhwng, ardaloedd daearyddol Cymru, lle mae rhai pobl ifanc yn gallu cael mynediad i gludiant ond nid eraill. Mewn ardaloedd o Gymru lle nad oes cludiant a/neu gludiant â chefnogaeth i, ac o, golegau AB ar gael, neu sydd wedi gael ei dynnu'n ôl, gall pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth fod yn amharod i ystyried opsiynau AB lleol neu yn methu manteisio ar leoedd ar gyrsiau a gynigwyd iddynt.

14. Mae'r system cyllido bresennol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADD ac ADDLl i fanteisio ar AB neu leoliadau colegau AA yn cael ei nodweddu gan ansicrwydd, cymhlethdod, breuder a diffyg amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae llawer o golegau AB yn dibynnu ar y system cyllid eithriadol ddewisol i gefnogi anghenion dysgu a chefnogaeth rhai dysgwyr ag ADD ac ADDLl, er gwaethaf y dybiaeth a disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y dylai darpariaeth ar gyfer y bobl ifanc yma cael ei ariannu'n bennaf drwy gyllidebau craidd y colegau. Yn aml, nid yw ceisiadau eithriadol ac arbenigol wedi eu cytuno, neu nad ydynt ar gael tan ar ôl dechrau'r tymor, ac mae'r baich

cysylltiedig o risg a straen y mae hyn yn ei olygu yn cael ei ysgwyddo gan y golegau, teuluoedd a phobl ifanc. Yn ddealladwy, nid yw llawer o deuluoedd yn barod i dderbyn y lefel yma o straen, risg ac ansicrwydd a gallant ddewis opsiynau ôl-19 oed eraill, neu gael eu perswadio i wneud hynny gan weithwyr proffesiynol eraill (e.e. gweithwyr pontio, penaethiaid ysgolion, a.y.b.).

15. Gall hawl pobl ifanc i ddewis opsiynau addysg ôl-19 oed o ddarpariaeth o'r ardal leol gael ei gyfyngu'n sylweddol gan ddiffyg gwybodaeth cadarn, debyg, dryloyw a gwrthrychol am yr amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys diffyg data canlyniadau ar gyfer yr holl ddarpariaeth cynfynediad lleol, diffyg adroddiadau arolygu Estyn a gyhoeddwyd ar gyfer rhai colegau, a lle mae adroddiadau Estyn ar gael, mae diffyg manylion am ansawdd y ddarpariaeth AB ar wahân. Gall cyfyngiadau cyllidebol a pholisïau ynghylch pa fath o leoliadau i ariannu ar lefel leol hefyd olygu bod y dewisiadau sydd ar gael i deuluoedd yn cael ei cyfyngu o'r cychwyn cyntaf.

**Y galw am addysg ôl-19 oed gan bobl ifanc ag ADD**

16. O'r 99 o bobl ifanc ag ADD a adawodd Blwyddyn 14 yn 2011, aeth 72 ymlaen i ryw fath o addysg ôl-19 oed rhan-amser neu lawn-amser ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Yn ôl eu teuluoedd a/neu ysgolion, i'r pedwar o rheini nad oedd mewn addysg ôl-19 oed byddant wedi hoffi mynd i'r coleg; un i goleg AA yn Lloegr, a tri i'w colegau AB lleol. Felly, cyfanswm y galw am fynediad i addysg ôl-19 oed gan y garfan ADD oedd 77 % (n=76) ar gyfer 2011/12, ac roedd gofynion 95% (n=72) wedi'u bodloni, a 5% (n=4) heb eu diwallu.

17. Roedd gan un ar bymtheg (22%) o'r 72 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol a oedd yn cael mynediad at addysg ôl-19 oed anghenion a dymuniadau AB nad oeddynt wedi eu bodloni. Roedd y meysydd yma o angen heb ei ddiwallu yn cynnwys:

- Darpariaeth prif ffrwd, rhaglenni galwedigaethol (yn hytrach na darpariaeth ar wahân, yn dysgu sgiliau generig a sgiliau byw yn annibynnol).
- Opsiynau addysg breswyl a lleol.
- Mwy o opsiynau addysg ôl-19 oed wedi ei ddarparu'n lleol.
- Darpariaeth yn agosach at adref.
- Cyfleoedd dysgu mwy llawn-amser (yn hytrach na rhan-amser).
- Cymorth ar gyfer anghenion meddygol neu ymddygiadol.
- Staff wedi eu hyfforddi'n addas er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu penodol.

**Y galw am addysg ôl-19 oed gan bobl ifanc ag ADDLl**

18. O'r 39 o bobl ifanc ag ADDLl a adawodd Blwyddyn 14 yn 2011, aeth 10 ymlaen i ryw fath o addysg ôl-19 oed rhan-amser neu lawn-amser ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Yn ôl eu teuluoedd a/neu ysgolion, i'r pedwar o rheini nid oedd mewn addysg ôl-19 oed byddant wedi hoffi mynd i'r coleg; dau i goleg AA yn Lloegr, un i leoliad preswyl yng Nghymru ac un i goleg AB yn Lloegr. Felly, cyfanswm y galw am fynediad i addysg ôl-19 oed gan y garfan ADDLl oedd 36% (n=14) ar gyfer 2011/12, ac roedd gofynion 71% (n=10) wedi'u bodloni, a 29% (n=4) heb eu diwallu.

19. Nodwyd bod gan bedwar (40%) o'r 10 o bobl ifanc ag ADDLl a oedd wedi cael mynediad at addysg ôl-19 oed anghenion a dymuniadau nad oeddynt wedi eu bodloni. Roedd y meysydd yma o angen heb ei ddiwallu yn cynnwys: diffyg darpariaeth leol, dim digon o oriau o ddarpariaeth yr wythnos a diffyg lle ar gyfer offer arbenigol a therapïau.

**I ba raddau mae'r ddarpariaeth bresennol o addysg ôl-19 oed yn cwrdd ag anghenion a galw'r bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth (ADD neu ADDLl) sy'n byw yng Nghymru?**

20. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos, allan o'r garfan o 138 o bobl ifanc, roedd yna fodloni o'r galw a galw heb ei ddiwallu am fynediad i AB i 76 o bobl ifanc ag ADD a 14 o bobl ifanc ag ADDLl, felly roedd yna 90 o bobl ifanc a oedd yn cael, neu eisiau mynediad i addysg ôl-19

oed ar gyfer y flwyddyn 2011/12. Mae'r data mapio a gasglwyd o golegau AB a cholegau AA yn nodi bod yna o leiaf 124 o lefydd AB, ac i fyny i 109 o lefydd coleg AA yng Nghymru a allai fod ar gael i bobl ifanc ag ADD ac ADDLl (rhwng 16 a 25 oed) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Yn amlwg, fodd bynnag, dim ond un gyfran o'r llefydd hyn oedd ar gael i grŵp targed yr ymchwil yma (ymadawyr Blwyddyn 14 ag ADD/ ADDLl), gan fod y rhan fwyaf o'r rhaglenni dysgu yma ar gael i bobl ifanc o bob oed a hefyd i rai pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ysgafn neu gymedrol. Ar ben hynny, mae'r ymchwil wedi amlygu bod mynediad i, a manteisio ar, llefydd AB a cholegau AA posibl gan bobl ifanc ag ADD ac ADDLl wedi ei rwystro gan heriau ymarferol, trefniadol ac ariannol sylweddol ar gyfer darparwyr, teuluoedd a phobl ifanc. Serch hynny, os byddai atebion i'r heriau yma yn cael eu canfod, mewn theori, mae'n ymddangos bod darpariaeth digonol ar gael yn genedlaethol yng Nghymru i ateb y galw presennol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ba raddau y gall y ddarpariaeth hon cael ei chyflwyno'n lleol i bob person ifanc sydd eu hangen.

**Beth mae pobl ifanc ag ADD ac ADDLl eisiau gan addysg ôl-19 oed a sut byddant yn hoffi i'r addysg yma cael ei ddarparu?**

21. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn cadarnhau bod pobl ifanc a teuluoedd eisiau'r pethau canlynol o addysg ôl-19 oed:

- Ystod ehangach o ddarparwyr addysg ôl-19 oed a mynediad at wybodaeth eglur a chymharol am sut gall y gwahanol ddarparwyr ddiwallu eu hanghenion.
- Yr opsiwn i ddewis cwricwlwm preswyl 24 awr, os dymunir.
- Y cyfle i ddysgu amrywiaeth o sgiliau ymarferol, rhyngbersonol a chyfathrebu a fydd yn eu helpu yn y dyfodol.
- Ystod ehangach o raglennu dysgu i ddewis o'u plith yn y coleg, gan gynnwys mynediad i raglennu galwedigaethol a brif ffrwd, a ddarparir yn lleol.
- Cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr, ac i gymdeithasu, gyda'u cyfoedion anabl a rhai nad ydynt yn anabl.
- Mynediad i gymorth da ar gyfer dysgu, gofal personol, gofal iechyd cymhleth ac anghenion ymddygiadol.

- Mynediad i therapïau (e.e. therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi) ar safleoedd y coleg os oes angen).
- Cynllun dysgu unigol sy'n canolbwyntio ar nodau ehangach bywyd y tu hwnt i'r coleg.
- Mynediad i drafnidiaeth â chymorth dibynadwy ac eglurder ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei ariannu.

22. O ran dulliau darparu, ni wnaeth teuluoedd na phobl ifanc dynnu sylw at unrhyw un dull penodol yn fwy nag un arall, ond siarad yn fras am yr angen i gynnig ehangach o opsiynau addysg, gan fwy nag un darparwr yn unig.

**Beth yw'r gost bresennol o ddarparu addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth?**

23. O'r garfan prosiect o 138 o bobl ifanc ag ADD neu ADDLl, roedd 82 yn cael rhyw fath o addysg ôl-19 oed. Roedd yr addysg yma'n cynnwys:

- 53 o bobl ifanc a oedd wedi cofrestru ar flwyddyn gyntaf o raglen ddysgu AB ar wahân am ran neu'r holl flwyddyn am y flwyddyn academaidd 2011/12.
- 29 o bobl ifanc a oedd wedi cofrestru ar raglennu dysgu dydd a phreswyl ar wahân mewn colegau arbenigol (un coleg AB yn cynnig darpariaeth arbenigol; 8 coleg AA) yng Nghymru a Lloegr.

24. Nid oedd y data, a ddefnyddwyd ar gyfer amcangyfrif y costau o ddarparu addysg ôl-19 oed ar wahân mewn coleg AB ar gyfer pobl ifanc ag ADD neu ADDLl, yn ddigon grymys i gyfrifo cost gyfartaledd ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, gan ddefnyddio data costau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac ymatebwyr ymchwil, a chan gyfeirio at gostau ychwanegol (data ar goll) ar sail cyfrifiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011), fe wnaeth yr ymchwilwyr amcangyfrif bod cyfanswm cost darpariaeth AB ar wahân i 53 o ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymhleth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 yn debygol o fod o leiaf £503,977 ac o bosib cymaint â £1,457,977 (ar gyfartaledd rhwng £9,509 i £27,509 fesul dysgwr).

25. Mae’n bwysig amlygu’r ffaith bod y costau amcangyfrifedig ar gyfer darpariaeth AB ar wahân ond yn cynnwys costau’r ddarpariaeth addysg, amcangyfrif o’r gost ar gyfer cludiant, amcangyfrif ar gyfer y gost o ddarparu gofal a therapi mewn lleoliad cymunedol neu yn y coleg, ac amcangyfrif o ddwy wythnos y flwyddyn o ofal dydd cymunedol ar gyfer peth o’r amser pan nad yw’r bobl ifanc yn y coleg. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw elfen arall o gostau ar gyfer llety, darpariaeth breswyl, neu gefnogaeth i bobl ifanc gyda’r nos, yn ystod penwythnosau, neu ar adegau eraill pan nad ydynt yn mynychu’r coleg.

26. Mae’r data a ddefnyddir i gyfrifo’r costau o addysg ôl-19 oed ar wahân mewn colegau AA yn fwy cadarn. Roedd gwybodaeth ar gael am y costau gwirioneddol o leoliadau dydd arbenigol a lleoliadau preswyl ar gyfer pob un o’r 29 o bobl ifanc ag ADD neu ADDLl o garfan y prosiect oedd yn mynychu colegau AA yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Gan ddefnyddio data costau a ddarparwyd gan y colegau AA a Llywodraeth Cymru, cyfrifwyd mai cost gwirioneddol ar dyfer darpariaeth ar wahân mewn coleg AA ar gyfer 29 o ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymhleth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 oedd £2,054,763 (ar gyfartaledd £70,854 fesul dysgwr).

27. Mae’r costau gwirioneddol ar gyfer darpariaeth ar wahân mewn colegau AA yn cynnwys y costau'r ddarpariaeth addysg a rhaglenni dysgu a fynychir gan y bobl ifanc, cefnogaeth dysgu ychwanegol, cefnogaeth 24 awr ar gyfer gofal personol (lle bo angen), cymorth 24 awr ar gyfer anghenion gofal iechyd cymhleth (lle bo angen), mynediad i therapïau (lle bo angen), rhai gweithgareddau cymdeithasol yn ystod y nos ac ar benwythnosau, a llety, bwyd a thrafnidiaeth yn ystod tymor y coleg.

**Sut gellir cyflawni gwerth am arian o fewn darpariaeth addysg ôl-19 oed sy'n cwrdd ag anghenion pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth?**

28. Er mwyn asesu sut y gellir cyflawni gwerth am arian o fewn darpariaeth addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth, mae angen dau faes allweddol o wybodaeth:

- Data tryloyw, cyson a chymaradwy am gostau gwirioneddol y ddarpariaeth.
- Data cadarn a chymaradwy ar ganlyniadau'r rhaglenni dysgu.

29. Darganfuwyd yr ymchwilwyr mae yn anaml iawn roedd gwybodaeth am gostau, canlyniadau a chyrchfannau ôl coleg ar gael, a phan roeddent ar gael, nid oeddynt yn debyg na'n gyson ar draws y darparwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddangos gwerth am arian ac er mwyn asesu ansawdd a manteision cymharol y gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth.

30. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol angen data o'r fath fel sail ar gyfer lliwio penderfyniadau ariannu ar gyfer mathau gwahanol o leoliadau. Ar hyn o bryd, nid yw'r lefel yma o ddata canlyniadau a chyrchfannau ar gael, ond mae cynlluniau ar gyfer ei gasglu yn cael ei threialu fel rhan o'r cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA; Llywodraeth Cymru, 2012a). Mae'r cynigion yn cynnwys bwriad i wella prosesau sicrwydd ac ansawdd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gyflwyno system fapio a fyddai'n olrhain canlyniadau disgyblion a'r adnoddau a ddyrennir i ddiwallu eu hanghenion. Ar hyn o bryd, system sicrhau ansawdd i ysgolion yn unig yw'r system. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol a cholegau AB yn gweithio gyda'i gilydd i dreialu ymestyn y system i'r sector AB. Nid yw'n glir os fydd y cynigion hefyd yn cynnwys y sector colegau AA. Bydd yn bwysig sicrhau bod gweithrediad y system sicrhau ansawdd yn caniatáu ar gyfer cofnodi ac olrhain nodau unigol a chanlyniadau'r dysgwyr ag ADD ac ADDLI.

**Pa ddewisiadau/ modelau eraill sy'n bodoli ar gyfer addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth?**

31. Ymchwiliwyd i amrywiaeth o opsiynau a modelau sy'n bodoli y tu allan i Gymru ar gyfer darparu dewis ehangach o addysg ôl-19 oed lleol i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canolfannau AB a leolir mewn colegau - lle mae coleg AB yn datblygu fel darparwr rhanbarthol o addysg arbenigol.
- Canolfannau AB a leolir mewn ysgolion - lle mae ysgolion arbennig lleol yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau AB, neu golegau AA, i ddarparu addysg ôl-19 oed arbenigol i bobl ifanc o'r ardal leol.
- Canolfannau AB a leolir yn y gymuned - lle mae colegau AB a'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu addysg arbenigol ar y cyd i bobl ifanc o'r ardal leol, mewn adeilad pwrpasol yn y gymuned leol.
- Canolfannau dysgu preswyl - ar gyfer pobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth AB lleol, i'w galluogi i dysgu am 24 awr y diwrnod, drwy dderbyn cymorth dysgu yn y cartref a thrwy fynediad at raglennu dysgu yn y coleg.
- Pecynnau unigol wedi'i bersonoli – sy'n cynnwys mynediad i AB, gweithgareddau eraill yn ystod y dydd a'r holl gostau byw â chymorth, drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol neu gyllidebau unigol.

32. Mae gan y modelau nifer o nodweddion allweddol cyffredin, a fyddai'n ddoeth i'w hystyried mewn unrhyw ddatblygiadau newydd yn ymwneud ag addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag ADD ac ADDLl yng Nghymru:

- Gweithio amlasiantaethol actif.
- Partneriaethau gyda theuluoedd.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau a dilyniant ar ôl gadael y coleg.
- Pwysigrwydd sgiliau, profiad ac ymrwymiad staff.
- Y gallu o gynnig cwricwlwm unigol a all fodloni nodau bywyd ehangach pobl ifanc, yn ogystal â thargedau addysgol a chymwysterau.

**Datblygu darpariaeth addysg ôl-19 oed i gwrdd â'r galw ac anghenion pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru**

33. Yn ystod cyfweliadau a gwaith grŵp ffocws, nodwyd pump maes allweddol lle y gallai darpariaeth addysg ôl-19 oed datblygu a chynyddu:

- Cefnogi colegau AB i wella, datblygu ac ymestyn eu hystod bresennol a lefel y ddarpariaeth bresennol.
- Ystyried potensial ysgolion arbennig i ddatblygu rôl fel darparwyr addysg ôl-19.
- Datblygu mwy o gyfleoedd dysgu preswyl lleol yng Nghymru.
- Cynnal, a lle bo'n briodol, datblygu opsiynau dydd a phreswyl arbenigol ac annibynnol, ar gyfer y rhai sydd eu hangen.
- Datblygu ac ehangu amrediad o gyfleoedd eraill sydd ar gael i bobl ifanc ag ADD ac ADDLl, gan gynnwys mwy o gymorth unigol gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

**Argymhellion**

*Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru arwain trafodaeth traws-sector i egluro a chytuno ar ddiffiniadau sy'n ymwneud â phobl ifanc 'sydd ag anawsterau dysgu cymhleth'*

34. At ddibenion y gwaith ymchwil yma, cawsom ddiffiniad gweithredol o bobl ifanc 'ag anawsterau dysgu cymhleth' gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cwmpasu'r categorïau ADD ac ADDLl fel y diffinnir gan ganllawiau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r fframio a'r defnydd ymarferol o'r diffiniad hwn wedi bod yn her trwy gydol yr ymchwil ac mae'r dehongliad o'r diffiniad wedi bod yn anghyson ar draws yr holl grwpiau o ymatebwyr. Mi fydd newidiadau deddfwriaethol arfaethedig (Llywodraeth Cymru, 2012a), yn rhoi sail statudol i'r cydsyniad o anghenion ychwanegol (AY), ac yn cynnig symud i ffwrdd oddi wrth ddiffiniadau o namau penodol, i ddiffiniadau sy'n canolbwyntio at lefelau o angen am gefnogaeth. Fodd bynnag, ni fydd diffiniadau newydd o reidrwydd yn golygu dealltwriaeth gwell. Mae'r profiad o'r ymchwil hwn wedi nodi'r angen am drafodaeth traws-sector a dealltwriaeth gwell ar draws y sector ynglŷn â phwy yw'r grŵp

yma o bobl ifanc, beth yw eu hanghenion a sut y ddylai bodloni'r anghenion yma orau. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cytundeb ynghylch y diffiniadau newydd a'u heffaith ar y bobl ifanc dan sylw, cyn y broses o weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd.

*Argymhelliad 2: Dylai awdurdodau lleol, fel cyllidwyr a chomisiynwyr addysg ôl-19 oed y dyfodol, sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r problemau sy'n gynhenid yn y system bresennol o gyllid eithriadol a chyllid arbenigol, a dylid rhoi trefniadau ar waith i fynd i'r afael ar rhain fel mater o frys.*

35. Mae Llywodraeth Cymru (2012a) wedi cynnig y dylai awdurdodau lleol cymryd y cyfrifoldeb am yr asesiad, comisiynu ac ariannu lleoliadau AB arbenigol a chyfrifoldeb am reoli darpariaeth cyllid eithriadol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i fynd o'r afael â rhai o'r rhwystrau strwythurol sy'n gynhendid yn y system bresennol sy'n cyfyngu mynediad at ddarpariaeth addysg ôl-19 i bobl ifanc ag ADD a ADDLI. Croesawir y cynnig y dylai'r amseriad asesiadau ar gyfer cyllid preswyl arbenigol cael ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn olaf i'r flwyddyn obennol o addysg orfodol. Gallai hyn cael ei gryfhau trwy ganllawiau i awdurdodau lleol ar yr amserlen ofynnol ar gyfer gwneud penderfyniadau am y math o gefnogaeth ac am leoliadau arbenigol maent yn bwriadu cynnig i berson ifanc. Bydd yn bwysig i awdurdodau lleol, fel comisiynwyr a chyllidwyr addysg ôl-19 oed y dyfodol, i fod yn gwbl ymwybodol o'r problemau sy'n gynhenid yn y system bresennol, a'r effaith (negyddol) o'r rhain ar ddarparwyr, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd trefniadau asesu, comisiynu a cyllido newydd ar lefel yr awdurdod lleol angen sicrhau bod atebion lleol yn ddigonol er mwyn afael â'r problemau hyn fel mater o frys.

*Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru sefydlu systemau ar gyfer cofnodi cyrchfannau ôl-19 oed pobl ifanc ag ADD ac ADDLl*

36. Ar hyn o bryd, nid yw data cyrchfannau ôl-19 oed yn cael eu casglu yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 14 yr ysgol. Nid oes data yn cael ei cyhoeddi i ddangos faint o bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth (ADD ac ADDLl) yng Nghymru sy'n mynd ymlaen i

addysg ôl-19 oed, neu pa fath o ddewis lleoliad a wnânt. Dylai Gyrfa Cymru ystyried ymestyn ei arolwg ymadawyr ysgol bresennol i gynnwys rhai sy’n gadael Blwyddyn 14 a hefyd yhoeddi data ar statws namau’r rhai sy’n gadael yr ysgol. Gall Gyrfa Cymru hefyd ystyried casglu a dadansoddi data ar statws namau'r rhai sy’n gadael yr ysgol. Yn ogystal, dylai Gyrfa Cymru ystyried casglu data ar y nifer o bobl ifanc nad ydynt yn gallu cael mynediad i’w dewis cyntaf o leoliad ar ôl iddynt adael yr ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu systemau ar gyfer cofnodi dewisiadau lleoliadau addysg ôl-19 oed ar lefel leol a ledled Cymru. Dylai monitro’r data helpu i dynnu sylw at yr anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg ôl-19 oed rhwng ardaloedd lleol a gall hefyd amlygu i ba raddau mae’r galw hwnnw’n cael ei fodloni.

*Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sefydlu systemau ar gyfer monitro, cofnodi a dadansoddi costau a chanlyniadau unigol lleoliadau ôl-19 oeder mwyn asesu gwerth am arian a sicrhau bod lleoliadau yn ddigonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc.*

37. Nododd yr ymchwil nad yw data monitro sylfaenol am gostau, canlyniadau a chyrchfannau ar ôl gadael y coleg ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth ar gael yn aml, a lle maent ar gael, nid ydynt yn debyg neu’n gyson ar draws darparwyr lleoliadau. Bydd y trefniadau newydd o gomisiynau ac ariannu lleol angen sefydlu systemau ar gyfer monitro, cofnodi a dadansoddi costau a chanlyniadau unigol lleoliadau ôl-19 oed er mwyn asesu gwerth am arian a sicrhau bod lleoliadau yn ddigonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

38. Mae gosod nodau unigol a pherson-ganolog yn ganolog i sicrhau bod rhaglenni dysgu yn cwrdd ag anghenion unigolion. Mae cynnig Llywodraeth Cymru (2012a) i weithredu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU; *Individual Development Plans*) ar gyfer yr holl bobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol o 0 i 25 oed, ac yr argymhelliad y dylai asesiadau adran 140 cynnwys ystyriaeth o ddyheadau’r unigolyn, yn gamau sylweddol ymlaen. Mae’r cynigion hyn yn cydnabod

pwysigrwydd addysg a hyfforddiant ôl-19 oed sy'n galluogi pobl ifanc i symud tuag at nodau ehangach bywyd y maent wedi gosod ar gyfer eu hunain.

39. Fel rhan o'r cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer AAA, mae awdurdodau lleol a sefydliadau AB ar hyn o bryd yn ymestyn y system ar gyfer olrhain costau a chanlyniadau i bobl ifanc mewn addysg AB (Llywodraeth Cymru, 2012a). Bydd yn bwysig sicrhau bod gweithrediad y system sicrhau ansawdd yn ddigon hyblyg i ganiatáu dull person-ganolog i olrhain ac ail-godio'r nodau unigol a chanlyniadau'r dysgwyr ag ADD ac ADDLl. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried sut y gallai'r system olrhain arfaethedig cael ei ymestyn i'r system colegau AA.

*Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sefydlu systemau ar gyfer monitro, cofnodi a dadansoddi canlyniadau a chyrchfannau ar ôl gadael y coleg i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth.*

40. Nododd yr ymchwil fod ychydig iawn o wybodaeth tymor byr, canolig a hirach, ar gael am ganlyniadau a chyrchfannau ar ôl i bobl ifanc adael y coleg. Mae data o'r fath yn bwysig wrth asesu manteision cymharol a gwerth am arian y gwahanol fathau o leoliadau addysg ôl-19 oed ar gyfer unigolion. Er mwyn cefnogi dysgu a dilyniant pobl ifanc ar ôl iddynt adael y coleg, mae angen mwy o bwyslais at y strategaeth ymadael sy'n cael ei nodi ar ddechrau'r rhaglen ddysgu fel rhan o'r CDU. Bydd hyn yn sicrhau bod adolygiadau yn canolbwyntio ar symud tuag at y cam nesaf o bontio i oedolaeth ac yn caniatáu ar gyfer datblygu llwybrau posibl sy'n angenrheidiol i gefnogi'r person ifanc yn y dyfodol. Ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth, dylai cynllunio ar gyfer y dyfodol dechrau mor gynnar â phosib er mwyn gwella canlyniadau a chyd-drefniant.

*Argymhelliad 6: Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru egluro'r opsiynau addysg ôl-19 oed sydd ar gael i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth*

41. Nododd yr ymchwil mai ychydig, os o gwbl, o awdurdodau lleol oedd yn gallu nodi'n glir y dewisiadau addysg ôl-19 oed a gynigir i bobl ifanc ag

anawsterau dysgu cymhleth, neu a oedd yn gallu mynegi hyn i deuluoedd a phobl ifanc.  Cafodd hyn ei waethygu gan ddiffyg data clir, cyson a chymharol am y costau a chanlyniadau o wahanol fathau o leoliadau.

42. Mae cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA yn cynnwys y bwriad i ddatblygu Llwybrau Darpariaeth i ddiffinio safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth gwasanaeth sy'n ymwneud â phob lefel o angen. Bydd yn bwysig bod y Llwybrau'n dal pob math o ddewisiadau o ddarpariaeth a allai fod ar gael i sicrhau tryloywder a chydraddoldeb cyfle i bob person ifanc sydd ag ADD a ADDLl yng Nghymru.

*Argymhelliad 7: Mae angen gwaith pellach i gryfhau'r sylfaen costau ar gyfer cyfrifo costau gwirioneddol o ddarpariaeth AB a darpariaeth mewn colegau AA er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a chymharol am werth am arian.*

43. Mae'r ymchwil wedi amlygu rhai o'r problemau a'r cymhlethdodau cynhenid wrth geisio casglu a dadansoddi data costau sy'n ymwneud â lleoliadau addysg ôl-19 oed unigol. Mae cael data digonol a chymaradwy ar y costau o wahanol fathau o ddarpariaeth yn elfen hanfodol o wneud penderfyniadau ynglŷn â lleoliadau addysg ôl-19 oed unigol gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r sylfaen costau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gyfyngedig iawn. Nid oed yna lawer o ddata ar gael er mwyn penderfynu ar y costau llawn o gefnogi person ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth sydd yn byw gartref ac yn mynychu coleg AB lleol. Heb fynediad i'r data, mae'n amhosibl cymharu'r gwahaniaeth rhwng gwir gost lleoliadau AB a lleoliadau colegau AA ar gyfer y grŵp yma o bobl ifanc, heb sôn am gynnal dadansoddiadau costau-buddion hyd yn oed os byddai data canlyniadau digonol a chymaradwy ar gael.

*Argymhelliad 8: Dylai Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau digonol a chymorth ymarferol i alluogi colegau AB i ymestyn, datblygu a gwella eu hystod bresennol a lefel y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADD ac ADDLl yn ogystal â'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol eraill*

44. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bolisi o addysg gynhwysol leol ar gyfer pob person ifanc. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn nodi nifer o ardaloedd lle mae adnoddau cyfalaf a chefnogaeth eu hangen i alluogi'r sector AB i ymestyn, datblygu a gwella'u ddarpariaeth bresennol o addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu'r cwricwlwm – i ddatblygu dewis ehangach o gyfleoedd dysgu a llwybrau cynhwysol sy'n galluogi i bobl ifanc i gael mynediad i raglennu prif ffrwd, galwedigaethol a synhwyraidd.
- Datblygu rhaglenni dysgu unigol sy'n cael eu harwain gan anghenion yn hytrach na chael eu harwain gan ddarpariaeth.
- Datblygu staff a chyfleoedd hyfforddi sy'n cwmpasu addysgu arbenigol a dulliau cymorth priodol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr sydd ag ADD ac ADDLl.
- Gwell ymrwymiad rhwng y sector AB a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol – gall mynychu hyfforddiant ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol o iechyd a gofal cymdeithasol fod yn un ffordd i staff colegau i ddatblygu rhwydweithiau rhyngddisgyblaethol fel sylfaen ar gyfer datblygu pecynnau addysg a chefnogaeth ar gyfer y grŵp yma o bobl ifanc.
- Gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol o fewn colegau AB er mwyn eu galluogi i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, y rhai sydd ag anghenion iechyd cymhleth a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion eraill megis yr angen am ffisiotherapi rheolaidd neu gefnogaeth ymddygiadol.
- Ystyried ffyrdd o ymestyn oriau o ddarpariaeth fel bod yna mwy o ddewisiadau addysg lawn-amser a thu allan i oriau ar gael i ddysgwyr ag ADD ac ADDLl.

45. Rydym yn croesawu cyflwyno’r cynllun ‘Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig ac Addysg Bellach’ (DPYA AB[2]; *Unlocking the Potential of Special Schools and Further Education’*) a ddechreuodd ym mis Medi 2012. Nod y cynllun yma yw cynyddu mynediad i AB i ddysgwyr ag anghenion cymhleth drwy sicrhau bod arian ar gael i ysgolion arbennig, awdurdodau lleol, colegau AB a cholegau AA er mwyn adeiladu gallu lleol ac i gynorthwyo hyfforddiant a datblygiad staff. Mae’r pwyslais ar rannu dysgu ac arbenigedd rhwng y sector addysg arbenigol (ysgolion arbennig a cholegau AA) ac mae’r sector addysg bellach wedi’i ganmol. Serch hynny, efallai bydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol i ddarparu lefel y cymorth sydd ei angen i alluogi pobl ifanc ag ADD ac ADDLl i gael mynediad i raglennu dysgu a ddarperir yn lleol.

*Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i awdurdodau lleol am drefnu, cyllido a darparu cludiant i ac o golegau AB, yn sgìl yr estyniad o CDUau i 25 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth*

46. Mae mynediad i drafnidiaeth yn hanfodol i gynyddu mynediad i ddarpariaeth leol ac mae’r loteri cod post presennol yn annerbyniol. Ar hyn o bryd, nid oes disgwyl i awdurdodau lleol i ariannu cludiant ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol y tu hwnt i 19 oed. Mae’r cynnig ar gyfer ymestyn CDUau i 25 oed i rai pobl ifanc yn rhoi’r cyfle i ddatrys y mater yma; os oes disgwyliad y dylai pobl ifanc ag ADD ac ADDLl parhau â’u haddysg at 25 oed, yna ddylai arian ar gyfer teithio fod ar gael gan awdurdodau lleol i gefnogi hyn.

---

[2] Mae Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig ac Addysg Bellach yn gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlwyd i wella trefniadau pontio drwy hyrwyddo cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach ar sail ranbarthol. Ei nod yw gwella gallu o fewn AB drwy gynyddu dewis lleol ar gyfer dysgwyr 16-25 oed sydd ag anawsterau dysgu cymhleth.

*Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfarwyddiadau clir am drefnu, cyllido a darparu cymorth ar gyfer anghenion gofal personol, anghenion gofal iechyd cymhleth a mynediad parhaus i therapiau mewn lleoliadau AB*

47. Mae’r ymchwil yn cadarnhau fod mynediad at gefnogaeth ar gyfer anghenion gofal personol, anghenion gofal iechyd cymhleth a therapïau (megis ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith) yn gymhleth i ganfod a chyllido ac yn cyflwyno heriau gweinyddol a threfniadol anferth ar gyfer darparwyr addysg ôl-19 oed. Mae angen adolygu mewnbwn a chyllid y GIG i’r broses pontio, er mwyn sicrhau bod iechyd ar gyfer annibyniaeth a lles yn cael ei ddarparu yn y lle cywir ar yr adeg iawn. Rhaid i anghenion pobl ifanc ar gyfer gofal iechyd a therapïau cael eu cynnwys fel rhan o strategaeth integredig a pharhaus sydd wedi’i ganolbwyntio ar y person, neu ar sail CDU yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. I bobl sydd ag ADDLl, bydd angen i nod yr addysg fod yn fwy eang a bydd angen canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau synhwyraidd, echddygol, cymdeithasol a chyfathrebu, a bydd angen lefel uchel o integreiddio gofal iechyd, mewnbwn meddygol, gofal cymdeithasol a dulliau effeithiol o addysgu, sydd ar hyn o bryd yn anodd ei gyflawni mewn nifer o golegau AB.

48. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar gyfer byrddau iechyd lleol, neu awdurdodau lleol, i gwrdd â'r gofal personol ac anghenion iechyd gofal i'r bobl ifanc hynny sydd wedi sicrhau lleoliad addysg ôl-19, oni bai bod ganddynt 'angen parhaus am ofal iechyd y GIG ', fel y diffinnir gan y canllawiau gofal iechyd parhaus i oedolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). O ganlyniad, mae nifer o bobl ifanc sydd angen gofal personol a chymorth sy'n gysylltiedig ag iechyd yn gallu cael mynediad i addysg bellach.

49. Gall y trefniadau comisiynu ac ariannu lleol newydd ar gyfer cyllid eithriadol i addysg ôl-19 arbenigol cefnogi integreiddio nodau annibyniaeth a nodau gofal cymdeithasol gyda nodau addysgol. Mae'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig y fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA (Llywodraeth Cymru, 2012a) yn anelu

i ymestyn cylch gorchwyl y canllawiau cyfredol ar ofal parhaus i blant a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2012b) hyd at 25 oed.

50. Serch hynny, mae angen arian a mewnbwn y GIG i'r broses bontio cael ei adolygu, er mwyn sicrhau bod iechyd ar gyfer annibyniaeth a lles yn cael ei darparu yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Mae rhaid i anghenion pobl ifanc ar gyfer gofal iechyd a therapi cael eu gynnwys fel rhan o gynllun person-ganolog integredig a pharhaus, neu CDU yn y ddeddfwriaeth arfaethedig (Llywodraeth Cymru, 2012a). Ar gyfer pobl sydd â PMLD yn arbennig, mae nodau addysg yn debygol o fod yn eang ac am canolbwyntio ar ddatblygiad synhwyraidd, echddygol, cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu, sy'n gallu gofyn am lefel uchel o integreiddio gofal iechyd, mewnbwn meddygol, gofal cymdeithasol ac effeithiol dulliau addysgu, sy'n anodd ei gyflawni mewn llawer o leoliadau addysg bellach ar hyn o bryd. Bydd angen arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn eu rôl gomisiynu newydd i sicrhau bod mynediad i addysg ôl-19 yn hawl i bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymorth mwyaf cymhleth.

51. Mae cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer AAA yn cael eu hategu gan ddyletswydd ar gyrff perthnasol i gydweithio mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd â’r lefelau uchaf o angen. Bydd y ddyletswydd hon ar waith trwy Baneli Cymorth amlasiantaethol, ac **efallai** bydd cynrychiolwyr o feysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol ac asiantaethau trydydd sector fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i fynychu’r panel i gytuno ar ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol ac unrhyw leoliad arall. Mae’r ymchwil hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd o wneud cydweithio rhyngasiantaethol yn ofyniad statudol ar gyfer y grŵp yma o ddysgwyr.

*Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector addysg yn gyffredinol parhau i gynnal, a lle bo'n briodol, datblygu, opsiynau dydd a phreswyl arbenigol ar gyfer AB ar gyfer y rhai sydd eu hangen*

52. Mae'r ymchwil wedi dangos bod gan y sector colegau AA llawer iawn o wybodaeth ac adnoddau arbenigol i gynnig, o ganlyniad o'i brofiad yn darparu cwricwla unigol i bobl ifanc ag ADD ac ADDLl. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod rhai pobl ifanc yn elwa, a byddant yn parhau i elwa, o leoliad mewn coleg AA. Ar ben hynny, o ystyried daearyddiaeth Cymru, gall mynediad i opsiynau addysg ôl-19 oed **lleol**, mewn gwirionedd cael eu gwasanaethi orau gan golegau AA yng Nghymru neu hyd yn oed dros y ffin yn Lloegr. Gyda'r cynnig i leoleiddio ariannu a chomisiynu lleoliadau addysg ôl-19, bydd angen (i Estyn neu Lywodraeth Cymru) i fonitro effaith penderfyniadau awdurdodau lleol unigol ar 'iechyd ariannol' y colegau AA er mwyn sicrhau eu bod yn opsiwn sy'n parhau i fod ar gael i'r rhai sydd ei angen a'i eisiau.

53. O ran datblygu darpariaeth colegau AA, mae'n adnabyddus ceir problemau gyda pharhau gyda'r lefel o gefnogaeth a chynnal sgiliau pan fydd pobl ifanc yn dychwelyd i'w hardaloedd lleol o golegau AA (Heslop et al, 2007). Mae angen ailadrodd ac atgyfnerthu galwadau ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng colegau AA ac awdurdodau cartref pobl ifanc gan gyfarwyddebau clir gan Lywodraeth Cymru.

54. Efallai y bydd hefyd angen trafodaeth am y priodoldeb o raglennu dysgu galwedigaethol sy'n seiliedig ar weithio ar y tir yn y colegau AA gwledig ar gyfer pobl ifanc sydd â symudedd cyfyngedig neu rhai a fydd yn dychwelyd i ardaloedd trefol neu ddinesig. Yn yr un modd, mae'r pwyslais parhaus ar arbenigedd a chyfyngu lleoliadau i grwpiau penodol o bobl Ifan, efallai ddim yn gynaliadwy os yw'n golygu nad yw'r cyfle i gael addysg 24 awr ar gael i rai pobl ifanc a fyddai'n elwa ohono.

*Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda budd ddeiliaid i ddatblygu ac ehangu amrywiaeth y ddarpariaeth addysg ôl-19 oed sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth, gan gynnwys mwy o fynediad at gymorth unigol gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol*

55. Mae'r ymchwil wedi cadarnhau bod yna amrediad o opsiynau a modelau eraill yn bodoli, yn bennaf tu allan i Gymru ar hyn o bryd, ar gyfer darparu dewis ehangach o addysg ôl-19 oed lleol i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. Fe wnaeth ymatebwyr yr ymchwil hefyd adnabod nifer o ffyrdd posibl y gallai darparwyr Cymru ddatblygu AB ôl-19 oed. Mae'r awgrymiadau yma, yn ogystal ag ymgynghori â budd ddeiliaid eraill yn ystod grwpiau ffocws, wedi cadarnhau gall y modelau canlynol cael eu hystyried yn ymarferol ar gyfer y cyd-destun Cymreig:

- Canolfannau AB a leolir mewn colegau
- Canolfannau AB a leolir mewn ysgolion
- Canolfannau AB a leolir yn y gymuned
- Canolfannau dysgu preswyl
- Pecynnau unigol wedi'i bersonoli trwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol neu gyllidebau unigol.

56. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r potensial ar gyfer darpariaeth ganolog i addysg ôl-19 oed mewn nifer fach o ganolfannau arbenigol ar draws Cymru, gan ddefnyddio'r cyllid ôl-16 presennol (Llywodraeth Cymru, 2012a). Gall hefyd fod potensial ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r system gyllido ar gyfer addysg ôl-16 ar gyfer rheini ag anghenion dysgu ychwanegol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010; Llywodraeth Cymru, 2012a) i alluogi datblygu darpariaeth newydd a'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r cynigion hyn yn cynnig cyfleoedd i ystyried barn teuluoedd, pobl ifanc a budd ddeiliaid eraill a gyflwynir yn yr adroddiad yma, am sut y byddent yn hoffi gweld AB ôl-19 oed cael ei ddatblygu yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ystod a dewis o opsiynau addysg ôl-19 oed ar gael i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth, gan gynnwys mwy o fynediad at gymorth unigol gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

*Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru arwain, neu gomisiynu, gwaith ymgynghori traws-sector sy’n canolbwyntio ar atebion, i ddod i gytundeb am sut y gall rhwystrau strwythurol presennol cael ei oresgyn orau er mwyn cynyddu mynediad i AB ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag ADD ac ADDLl*

57. Mae’r ymchwil wedi tynnu sylw at y rhwystrau strwythurol sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu mynediad i addysg ôl-19 oed ar gyfer llawer o bobl ifanc ag ADD ac ADDLl, ac wedi archwilio sut i oresgyn rhai o’r rhwystrau yma. Mae’r ymchwil wedi argymell nifer o gamau gweithredu allweddol, er mwyn bodloni’r lefelau presennol o angen ac yr angen yn y dyfodol, ar gyfer AB ôl-19 oed i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhleth.

58. Mae angen gwaith pellach i nodi’r atebion posibl a’r ‘camau nesaf’ sydd angen eu gweithredu, mewn ymgynghoriad â phobl ifanc, teuluoedd, darparwyr AB, awdurdodau lleol a budd ddeiliaid allweddol eraill fel Gyrfa Cymru a sefydliadau sector gwirfoddol. Dylai Llywodraeth Cymru arwain, neu gomisiynu ymgynghori traws-sector sy’n canolbwyntio ar atebion, i drafod ac i gytuno ar y newidiadau ac addasiadau rhesymol sydd angen i ddarpariaeth AB ar hyn o bryd y gellir eu cyflawni yn y tymor byr, canolig ac yn hirach.

## Casgliadau

59. Ffocws yr ymchwil oedd archwilio i lefelau'r angen a darpariaeth addysg ôl-19 oed ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. Wrth gomisiynu gwaith ymchwil, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd yn ganiataol bod mynediad i addysg bellach ar gyfer pobl ifanc ag ADD ac ADDLl yn rhaid ac yn hawl. Yn sicr, mae hawl pobl ifanc i addysg gynhwysol leol wedi ei gefnogi mewn polisi a bydd y diwygiad arfaethedig yn y fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gweithredu deddfwriaeth i ymgorffori’r hawl hon hyd at 25 oed i rai pobl ifanc.

60. Dangosodd yr ymchwil nad yw cyfran fawr o bobl ifanc ag ADDLl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth, yn cael mynediad i ddarpariaeth addysg bellach. Er bod 76% o bobl ifanc ag

ADD yn cael mynediad neu'n dymuno mynediad i AB, mae'r ffaith mae dim ond 36% o'r rhai sydd ag ADDLI sydd yn gwneud hynny yn dangos galw llawer is ar gyfer darpariaeth AB i bobl sydd ag ADDLI. Mae'r data yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl ifanc gyda ADDLI yn mynychu gwasanaethau dydd wedi ei darparu gan awdurdodau lleol neu'r sector wirfoddol, ond ar gyfer nifer o'r bobl ifanc, nid rhain oedd eu dewis cyntaf o leoliad wedi gadael yr ysgol.

61. Beth felly fyddai'r dewis cyntaf o ddarpariaeth ôl-19 oed ar gyfer y grŵp yma o bobl ifanc a'u teuluoedd? Codwyd y mater o ddarpariaeth leol sydd yn oed priodol gan deuluoedd ar gyfer eu plant ag ADDLI. Mynegwyd awydd ar gyfer pecynnau unigol gydag amrywiaeth o opsiynau yn ystod y dydd, gan gynnwys mynediad i AB gyda'r opsiwn o fyw â chefnogaeth 24 awr, gyda chyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gymuned ac yn y cartref. Amlygodd teuluoedd hefyd am bwysigrwydd y dull bywyd cyfan i ddarpariaeth ôl-19, boed yn addysg neu weithgareddau eraill, a phwysleisio bod parhad cefnogaeth ar gyfer anghenion gofal iechyd cymhleth, therapïau a chyfathrebu yn gydrannau hanfodol ar gyfer unrhyw opsiwn ôl-19. Yn ddibynnol ar y ddarpariaeth leol sydd ar gael, efallai nid AB na choleg AA yw'r ffordd orau i helpu'r grŵp yma o bobl ifanc i fod mor annibynnol ag y bo modd, i ddatblygu a chynnal eu sgiliau cyfathrebu ac i gael ansawdd bywyd da.

62. I gloi, pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau bod mynediad i addysg ôl-19 oedi fyny at 25 oed yn hawl i **bob** person ifanc sydd ag anghenion ychwanegol, mae pwysigrwydd sector AB ag adnoddau da, sy'n gallu ymateb i anghenion unigol y bobl ifanc a'u teuluoedd, yn hollbwysig. Gydag agenda cynhwysiad sy'n mynd ati i ymdrin rhwystrau i fynediad, mae gan addysg bellach y potensial i ddod yn llwybr gwirioneddol gyffredinol ar gyfer sicrhau datblygiad parhaus o gynnydd pobl ifanc i fywyd oedolyn.

**Llyfryddiaeth**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) Report of the Enterprise and Learning Committee's Consideration of the Petition on Post-19 Students with Additional Learning Needs. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010). Task and Finish Group on Future Arrangements for Funding Post-16 Additional Learning Needs in Schools and Further Education. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Heslop, P., Abbott, D., Johnson, L. and Mallett, R. (2007) Help to Move on: Transition Pathways for Young People with Learning Difficulties in Residential Schools and Colleges. York: York Publishing Services.

Llywodraeth Cymru (2012a) Forward in Partnership for Children and Young People with Additional Needs. Consultation Document WG14863. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012b) Children and Young People's Continuing Care Guidance. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011) Oversight of Special Education for Young People Aged 16-25. Llundain: The Stationery Office.